# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

## RHAN 3

GWAREDIADAU TRETHADWY A WNEIR AR SAFLEOEDD TIRLENWI AWDURDODEDIG

## PENNOD 2

Y DRETH SYDD I'W CHODI AR WAREDIADAU TRETHADWY

*Deunyddiau cymwys a chymysgeddau cymwys o ddeunyddiau*

### 15 Deunydd cymwys

(1) Deunydd cymwys yw deunydd y mae'r gofynion a ganlyn wedi eu bodloni mewn perthynas ag ef.

*Gofyniad 1*

Mae'r deunydd wedi ei bennu yn y Tabl yn Atodlen 1.

*Gofyniad 2*

Mae pob amod yn y Tabl yn Atodlen 1 sy'n gymwys mewn perthynas â'r deunydd (os oes rhai) wedi ei fodloni.

*Gofyniad 3*

Ceir—

(a) os yw disgrifiad ysgrifenedig o'r deunydd yn ofynnol yn rhinwedd adran 34(1)(c)(ii) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (p. 43), ddisgrifiad ysgrifenedig o'r math sy'n ofynnol, neu

(b) os nad yw disgrifiad ysgrifenedig o'r deunydd yn ofynnol yn rhinwedd yr adran honno, dystiolaeth arall,

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 15. (See end of Document for details)*

y gellir penderfynu ar ei sail bod gofyniad 1 a 2 wedi eu bodloni.

(2) Caiff rheoliadau ddiwygio Atodlen 1.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 15 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 15 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 15.